

Cofnodion cyfarfod 3/6/2021

Presennol: Y Maer Rhys Evans, Dilys Evans, Eluned Jones, Alun Price, Eifion Roberts, Heledd Roberts, Carol Rowlands

Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (*Clerc*).

Andrew Basford, Cyfoeth Naturiol Cymru

1. **Croesawodd** y Maer bawb i'r cyfarfod ac estynodd groeso arbennig i Heledd Roberts i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Tref Y Bala.
2. **Croesawyd Andrew Basford**, Swyddog Cyflenwi Prosiectau Cyfoeth Naturiol Cymru, a amlinellodd y sefyllfa parthed cryfhau (nid codi) wal Llyn Tegid. Mae'r gwaith yn sicrhau y byddai'r strwythur yn parhau yn gryf hyd yn oed pe byddai digwyddiad o ddŵr yn dod dros y wal. Dywedodd fod caniatad cynllunio llawn wedi ei dderbyn ac roedd yn disgwyl i'r gwaith barhau tan y Gwanwyn 2023; wedyn fe fydd gwaith tirlunio i'w wneud dros gyfnod o bum mlynedd. Yn anochel fe fydd tarfu ar fywyd arferol y dref, ond ceisir lleihau'r effaith gymaint a phosib. Bydd angen torri'r coed ar y blaendaeth sydd ar hyn o bryd yn niweidiol i'r sefyllfa, ond fe wnaeth sicrhau'r Cyngor y bydd tair coeden yn cael eu plannu yn lle pob un coeden a dorrir. Awgrymwyd gan y Cyngor mai coed aeddfed fydd angen eu plannu. Cyfeiriodd at gerbydau sydd ar hyn o bryd yn parcio mewn ardal SSSI a dywedodd y ceisir diogelu'r ardalodd hyn a chreu coridor diogel o goed i'r ystlumod. Bydd sylw yn cael ei roi i gynllun rheoli trafniadaeth a disgwylir i'r gwaith gychwyn yn yr hydref. Ceisir cynnal llwybrau i gerddwyr wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Mae Ymddiriedolaeth Rheilffordd Llyn Tegid yn rhan o'r cynllun. Ceisir cyflogi yn lleol. Ymrwymodd i gadw mewn cysylltiad rheolaidd a dywedodd y bydd modd cynnal deialog gyda'r cyhoedd a chydweithio gyda'r ysgolion lleol.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai eiddo Cyngor Tref Y Bala yw'r mwyafrif o'r meinciau ar lan y llyn, a bod angen eu diogelu ac nid eu gwaredu. Holwyd am fwriadau cynnal meinciau ac yn y blaen yn y tymor hir, ond atebodd nad oedd y mater hwn wedi cael sylw hyd yn hyn. Eglurwyd y gosodwyd dodrefn o blastig wedi ei ailgylchu gan y Cyngor Tref, er mwyn osgoi fandaliaeth a chostau cynnal.

Diolchodd Eifion Roberts yn gynnes iawn i Mr Batsford am ei gyflwyniad a chytunwyd mai da o beth fyddai deialog cyson gyda'r Cyngor a'r gymuned. Cytunodd hefyd i gyfarfod y Cynghorydd Dilwyn Morgan wyneb yn wyneb.

3. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Sharon Evans, Elin Hedd, Tony Parry a John Caradog Williams.
4. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
5. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 6 2021.

6. Materion y Clerc:

- i. Ethol Dirprwy Faer: cytunwyd i ofyn i Sharon Evans gymryd y swydd.
- ii. Di ffib: gwirfoddolodd Heledd Roberts i gymryd gofal ohono a chofnodi ei fod yn gweithio. Diolchwyd iddi am ei pharodrwydd.
- iii. Ymddygiad ar y Stryd Fawr gyda'r nos: cyflëwyd ymateb Heddlu Gogledd Cymru i bryder y Cyngor, sef eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cadw llygad ar y mater. Roedd y Clerc wedi mynegi hyn wrth yr achwynydd mewn galwad ffôn.
- iv. Codi Pac: bu'r cwmni yn ffilmio ar y Domen ac roeddent yn ddiolchgar i'r Cyngor am fynediad yno.
- v. Camper van yn gwersylla ar y Stryd Fawr: derbyniwyd cwyn fod van wedi aros yn ei unfan am dair noson ar y Stryd Fawr yn ddiweddar. Mae cwynion bod yn gwersylla ar y ffordd o flaen y llyn ac mewn culfannau eraill yn y dref. Awgrymodd Cyngorydd Dilwyn Morgan defnyddio app Gwynedd i dynnu sylw'r awdurdodau.
- vi. Diolchodd y Clerc i'r Cyngorwyr a oedd wedi anfon llythyr yn mynegi eu bwriadau parthed a chymryd y lwfans.

7. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd Dilwyn Morgan, Cyngorydd Gwynedd fod y pwysau ar staff yr ambiwlans yn drwm iawn a chytunwyd i ysgrifennu am y mater at y gwasanaeth. Mae trafodaethau dwys yng Nghyngor Gwynedd am barcio a gwersylla direol. Mae'r Cyngor yn edrych ar Y Bala fel safle peilot lle dynodir lle parcio arbennig a gwaherddir gwersylla mewn mannau heb eu dynodi. Mae'r goeden wedi ei phlannu o flaen y Post. Bu'n trafod problemau parcio o flaen fflatiau Cysgod y Coleg gydag Adra. Mae posibilrwydd y bydd Rheilffordd Llyn Tegid yn derbyn arian "levelling up" gan y Llywodraeth. Cytunwyd i wahodd Julian Birley i roi cyflwyniad yng nghyfarfod Gorffennaf.

8. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price o gyfarfod diweddar a oedd wedi ei ffocysu yn bennaf ar Drafnidiaeth Cymru. Tynnodd sylw nad ydyw Llywodraeth Cymru yn caniatáu i gynghorau gyfarfod mewn adeilad oni bai fod hefyd darpariaeth i bobl fynychu yn electronig. Cynhelir y cyfarfod blynyddol ar 21/7/21

9. **Gweminar Parc Cenedlaethol Eryri:** Adroddodd y Maer fod y Parc Cenedlaethol wedi derbyn yr un math o broblemau llynedd â'r parciau cenedlaethol eraill. Eleni maent wedi gwario £400,000 i geisio lliniaru'r problemau gyda 5 warden newydd a swyddog cysylltu arall. O'r herwydd bu raid torri rhai swyddi eraill. Dywedodd fod cronfa gymunedol o £200,000 yn cael ei sefydlu ar gyfer prosiectau cymunedol. Mae'r Parc yn edrych ar bwerau gorfodaeth i gosbi pobl sy'n gwersylla a pharcio'n anghyfreithiol. Mae cynllun llys-genhadon Eryri, sef gwasanaeth ar lein i ymwelwyr.

10. **Is-bwyllgorau:** Nid oedd adroddiadau.

11. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau wedi dod i law.

12. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Mewnol a nodwyd yr angen i gynnwys Cyfrif y Maer. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2020-21 gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Tref Y Bala a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/21.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth (e-bostiwyd) am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

- iii. Cytunwyd i daliadau misol arferol sef glanhau Llochesi a chyflog Clerc.
- iv. Nid oedd ceisiadau am gefnogaeth ariannol o gyllid 2020-21.

13. Gohebiaeth: *E-bostiwyd a nodwyd*

- i. Newyddlen Gwybodaeth i deuluoedd Gwynedd
- ii. Ymgynghoriad Gwarchod Mannau Cyhoeddus - Cyngor Gwynedd (cwn)
- iii. Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid – Cyfoeth Naturiol Cymru
- iv. Llythyr o ddiolch am gyfraniad – Clwb Badminton Y Bala
- v. Llythyr o ddiolch am gyfraniad – Llên y Llannau
- vi. Llythyr Cymdeithas yr Iaith: cytunwyd i arwyddo a dywedodd y Maer y byddai'n bresennol yn Rali Tryweryn ar 10/7/21 i arwyddo'n gyhoeddus.
- vii. Gwahoddiad i gyfarod Zoom: Uno i ddatrys argyfwng yr ail gartrefi – Nefyn, 24/6/21. Dywedodd y Maer y byddai'n ymdrechu i ymuno a'r cyfarfod.
- viii. Cau Heol Tegid o 7/6/21 hyd at 5 diwrnod - trydan tan ddaearol
- ix. Un Llais Cymru: Gweminar ar adnewyddu trefi a chynllunio 23/6/21

14. Partneriaeth Penllyn: oherwydd cyfyngderau Covid, nid oedd dim newydd i'w adrodd.

15. Asedau'r Cyngor: adroddodd Carol Rowlands bod eu cyflwr yn foddhaol a diolchwyd iddi am ei harchwiliad cyson o'r asedau.

16. Materion lleol y Cyngorwyr Tref - nid oedd materion yn codi.

17. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 1/7/21 (trwy gyfrwng Zoom, oni bai fod y rheolau'n newid)

Amser gorffen: 8.45pm